GRAFFEG

Pedwar Tymor Cynan

# Cynan a'r Sioe Haf




Awdur: Julia Rawlinson
Darlunydd: Tiphanie Beeke
Oed: 3-5
Fformat: Clawr meddal
Iaith: Cymraeg
Maint: 200 x 250mm
Cyhoeddiad: Mehefin 2022
Pris: £7.99

## Clawr

**Trafod a chlonc**

Cyflwyno'r awdur?

Mae awdur yn ysgrifennu storiau.

Beth yw darlunydd?

Mae ef neu hi'n tynnu lluniau.

Pa luniau ydych chi'n hoffi tynnu?

Sawl broga sydd ar y clawr?

Beth mae Cynan yn gwisgo?

Dyma stori Haf Cynan – beth wnawn ni yn yr Haf?

**Gweithgareddau**

Crëwch addurn 'bunting' gyda patrymau gwahanol, smotiog, streipiog, blodeuog, igam-ogam.

Trafodwch lliwiau a theimladau – pa liw sy'n cyfleu bod yn drist? Yn hapus? Yn grac/ flin? Yn gyffrous?



## Tudalen ddwbwl

**Trafod a chlonc**

Beth welwch tu fewn i'r clawr?

Beth am gyfri'r adar?

Sawl aderyn sydd i gyd?

Beth arall welwch chi?

Oes ffrwythau yma?

Pwy sy'n hoffi bwyta mefus?

**Gweithgareddau**


Casglwch a gwasgwch flodau gwyllt.

Lamineiddiwch y blodau a chreu symudlun gan roi eu henwau oddi tanynt

Creu siart o hoff ffrwythau'r plant.

Gwrando ar yr Haf o'r *Four Seasons* gan Vivaldi.

 © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 6 a 7

**Trafod a chlonc**

Pa fath o ddiwrnod yw hi?

Sut ydych yn gwybod?

Sawl aderyn welwch chi?


Beth sydd gan Cynan?

Pa synau mae'n eu clywed?

Canu, crawcian, cric-cracian

**Gweithgareddau**

Crëwch recordiad o synau'r haf – rhaid i'r plant ddarlunio'r synau wrth eu clywed.



## Tudalen 8 a 9

**Trafod a chlonc**

Pwy oedd yn cuddio tu ôl i'r rhedyn?


O diar, beth sy'n bod ar y gwningen bitw?

Pa sŵn oedd y brogaod yn ei wneud?

Fedrwch chi grawcian fel brogaod neu ganu fel adar bach?

**Gweithgareddau**

Crëwch brintiadau dail i wneud nod lyfrau neu papur lapio, cardiau i'w gwerthu yn y Ffair Haf.



## Tudalen 10 a 11

**Trafod a chlonc**

Pa swn oedd yr adar yn ei wneud?

A welwch chi'r adar – ble mae nhw?

Pam mae Cynan a'r gwningen yn dal dwylo?

Pryd fyddwn ni'n dal dwylo?

**Gweithgareddau**

Crëwch ras rwystrau – rhaid i'r plant fynd o'i gwmpas mewn parau un tu ol i'r llall yna gan ddal dwylo.



## Tudalen 12 a 13

**Trafod a chlonc**

Beth oedd y brogaod yn ceisio dysgu i'r gwningen bitw?

Beth am grawcian fel brogaod – yn dawel, yn uchel, yn gyflym, yn araf.

Sut oedd y gwningen bitw yn teimlo nawr?

**Gweithgareddau**

Crëwch gardiau dail lili i'w trefnu, dosbarthu, gosod brogaod clai arnynt.



## Tudalen 14 a 15

**Trafod a chlonc**

Ble mae Cynan a'r gwningen nawr?

A welwch chi'r criciaid?

Sut mae nhw'n creu eu swn?

Beth mae Cynan a'r gwningen wedi'u gwneud- mae nhw'n eu gwisgo?

**Gweithgareddau**

Defnyddiwch offerynau i greu band y creaduriaid.

Defnyddiwch yr offerynau gan chwarae i'r gân *Ugly bug ball*.



## Tudalen 16 a 17

**Trafod a chlonc**

Ble wnaeth y gwningen a Cynan orwedd?


Pam ddewision nhw i orwedd fanna tybed?

Sut mae Cynan yn teimlo erbyn hyn? Sut gwyddoch?

**Gweithgareddau**

Peintio fesul pâr – creu darlun o ddiwrnod o haf gan ychwanegu blodau, criciaid, adar a gloynod byw

Cyflwynwch: Glŏyn byw, pili-pala, iâr fach yr haf.



## Tudalen 18 a 19

**Trafod a chlonc**

Sut oedd Cynan yn teimlo wedi dihuno?

Beth oedd ei syniad?

Ydych chi wedi bod i weld sioe?

Beth fuoch i weld?

**Gweithgareddau**

Crëwch ffan deimladau.

Pan yn trafod teimladau gallant ddewis y lliw/ wyneb sy'n cyfleu eu teimladau.



## Tudalen 20 a 21

**Trafod a chlonc**

Roedd pawb yn paratoi ar gyfer y sioe -

Beth wnaeth y llygod?


A welch chi'r blodau?

Mae llygad y dydd, clatsh y cŵn a gwyddfid.

**Gweithgareddau**

Crëwch ardal berfformio tu fewn a thu allan – rhowch fasged neu focs o ddeunydd ychwanegol i wisgo a'i ddefnyddio.

*Cynan a'r Sioe Haf* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 22 a 23

**Trafod a chlonc**

Pwy ddaeth i'r sioe?

Beth ydym yn galw'r bobl sy'n dod i weld y sioe? Y gynulleidfa.

Fedrwch chi enwi'r anifeiliaid?

Tybed sut wnaeth y llygod ddringo'r goeden?

**Gweithgareddau**

Cystadleuaeth het haf – mynd ar orymdaith i'w harddangos yn y gymuned neu gwahodd rhieni fewn am baned.



## Tudalen 24 a 25

**Trafod a chlonc**

Beth wnaeth y gwningen berfformio?

Fedrwch chi symud fel y gwningen?

**Gweithgareddau**

Arbrofi pwy sy'n gallu neidio bellaf. Mesur ansafonol – sawl troed?



## Tudalen 26 a 27

**Trafod a chlonc**

Beth mae'r cwningod a'r brogaod yn ei wneud?

Mae'r wiwer yn jyglo - a fedrwch chi jyglo?

Pam roedd Cynan yn becso/ bryderus?

**Gweithgareddau**

Jyglwch gyda sgarffiau.

Crëwch lluniau cysgod o anifeiliaid a phlanhigion.



## Tudalen 28 a 29

**Trafod a chlonc**

Beth welwch chi yn yr awyr?

Pa amser o'r dydd yw hi?

Ble mae'r anifeiliaid yn perfformio?

Ydych chi wedi bod ar lwyfan?

Sut deimlad oedd bod ar y llwyfan?

**Gweithgareddau**

Edrychwch ar ddarluniau o'r nos ee *Starry Night* gan Van Gough

Ymchwiliwch i anifeiliaid nosol.

*Cynan a'r Sioe Haf* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Clawr cefn

**Trafod a chlonc**

Darllenwch y broliant.

Beth yw ei bwrpas?

Beth arall sydd ar y cefn?

Pwy yw GRAFFEG?

**Gweithgareddau**

Edrychwch am lyfrau eraill a'u cyhoeddwyd gan GRAFFEG a'u gosod ar arddangosfa.

CYNAN:

**Cynan a'r Ddeilen Fach**
ISBN 9781802580143

**Cynan a'r Bluen Eira**
ISBN 9781802580150

**Cynan a'r Petalau**
ISBN 9781802580129

**Cynan a'r Sioe Haf**
ISBN 9781802580136

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.